



Consortium for Research in Deaf Education

Adroddiad CRIDE ar arolwg 2015/16 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

Cyflwyniad

Yn 2016, cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei chweched arolwg blynyddol ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar¹. Mae'n ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2015/6². Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriadwyd ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Derbyniwyd atebion oddi wrth 15 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 o ardaloedd awdurdod. Golyga hyn fod yr arolwg CRIDE hwn wedi cyflawni cyfradd ymateb o 100%.

Defnyddio'r adroddiad

Gellir defnyddio'r adroddiad CRIDE yn y ffyrdd canlynol:

- Gall penaethiaid ysgolion a gwasanaethau ar gyfer plant byddar wneud defnydd o'r canfyddiadau demograffig cymaradwy wrth iddynt baratoi ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol ar y ddarpariaeth leol. Gall cael mynediad at ddata blynyddol helpu i sicrhau fod plant byddar yn cael eu hadnabod a bod darpariaeth effeithiol yn cael ei chynnig ar eu cyfer.
- I reolwyr, gall y set ddata lywio gynllunio strategol yn ymwneud â staffio a materion hyfforddi staff - gellir adnabod tueddiadau sy'n llywio'r trafodaethau hyn.
- Caiff ymchwilwyr ym maes addysg fyddar sydd yn cyfrannu at ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth fynediad at wybodaeth berthnasol a defnyddiol am y boblogaeth sy'n cael ei hastudio.
- Bydd yr adroddiad yn addysgiadol ac o ddiddordeb i rieni plant byddar a phobl ifanc fyddar, gan ei fod yn creu darlun o'r ddarpariaeth genedlaethol ar gyfer plant byddar.

Hoffai CRIDE achub ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r gwasanaethau am gymryd amser i ymateb, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau amser sylweddol sydd gan nifer fawr o'r gwasanaethau.

¹ At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd 'plant byddar' fel pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 mlwydd ac 11 mis sydd â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol, yn ôl disgrifiydion Cymdeithas Awdioleg Prydain a BATOD. Defnyddiasom y gair 'byddar' i gynnwys pob lefel o fyddardod, o fân fyddardod i fyddardod llwyr.

² Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) yn www.batod.org.uk/index.php?id=/resources/survey neu ar wefan NDCS yn www.ndcs.org.uk/CRIDE.

Dehongli'r canlyniadau

Gofynnwyd i wasanaethau roi ffigurau am y sefyllfa o Ionawr 31^{ain} 2016 ymlaen.

Mae nifer o wasanaethau'n dal i gofnodi anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae o hyd anghysondebau yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy'r arolwg. Weithiau mae'r gyfradd ymateb i gwestiynau unigol yn amrywio ac, fel y gwelir yn yr adroddiad hwn, gall gamgymeriadau mewn darparu data arwain at newidiadau mawr yn y ffigurau o flwyddyn i flwyddyn. **Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.** Amlygwyd unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng canfyddiadau'r arolwg hwn a chanfyddiadau arolygon blaenorol yn yr adroddiad. Yn 2016, ar ôl pum mlynedd o gynnal yr arolwg a chyflawni adolygiad sylweddol, gwnaeth CRIDE nifer o newidiadau arwyddocaol i'r cwestiynau. Mae'n rhaid bod yn ofalus hefyd oherwydd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a'r camgymeriadau posibl yn y ddarpariaeth data rhwng yr arolygon.

Noder bod pob canran wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Noder hefyd lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, ymddengys '<5'.

Cynnwys

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru	3
RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill	5
RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir	9
RHAN 4: Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	11
RHAN 5: Cefndir a methodoleg.....	12
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol	13

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol y maent yn cynrychioli³

Faint o blant byddar sydd?

Yn seiliedig ar ymatebion gan 15 gwasanaeth yn cynrychioli 22 awdurdod lleol, y cyfanswm o blant â byddardod parhaol yng Nghymru yw 2,374. Mae hyn yn ostyngiad ymddangosiadol o 3,288 yn 2014/15, sy'n dod i leihad o 38%. Gwelwyd lleihadau sylweddol mewn dau wasanaeth penodol. Mewn un achos, roedd hyn oherwydd bod ffigurau am blant â byddardod parhaol wedi cynnwys plant â byddardod dros dro mewn blynyddoedd blaenorol, ond ers hynny mae'r gwasanaeth wedi mireinio sut y mae'n casglu data. Mewn achosion eraill mae'n anodd bod yn sicr i ba raddau y mae'r lleihad hwn oherwydd newidiadau mewn demograffeg neu fanylder o ran cofnodi, ond mae'n ddiddorol i nodi petai CRIDE yn 'rheoli' ar gyfer y ddwy ardal hyn trwy eu cymryd allan o ffigurau'r llynedd, mae nifer y plant byddar yn gyffredinol yn dangos ychydig o gynydd.

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 52 o blant byddar yn perthyn o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 349 o blant byddar. Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n perthyn mewn pob gwasanaeth oedd 158.

Cymhara'r tabl dilynol gyfanswm nifer y plant byddar sy'n byw yng Nghymru ym mhob blwyddyn yr arolwg. Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau ag adroddiadau cynharach oherwydd gwahaniaethau yn ansawdd yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb rhwng yr adroddiadau.

Tabl 1: Nifer y plant byddar sy'n byw yng Nghymru, dros y blynyddoedd yn olynol

	Nifer y plant a gofnodwyd
CRIDE 2016	2,374
CRIDE 2015	3,288
CRIDE 2014	2,880
CRIDE 2013	2,904
CRIDE 2012	2,743
CRIDE 2011	2,755

Sut mae ffigurau CRIDE 2016 yn cymharu â ffigurau o ffynonellau eraill?

Cyfrifiad Ysgol

Adrodda arolwg CRIDE 2016 fod 2,374 o blant byddar yng Nghymru. Ond awgryma ffigurau Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru 2016 fod 2,215 o ddisgyblion sydd â 'nam ar y clyw' fel ei AAA mwyaf a bod y plentyn wedi'i osod ar Weithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwyn, neu

3 Y diffiniad a rhoddir ar gyfer y cwestiwn hwn oedd: "At ddibenion yr arolwg hwn, defnyddiwn y term 'plant' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 19 mlwydd ac 11 mis. Pob plentyn sydd â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol, ar bob lefel o fân i lwyr, yn ôl disgrifiyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain / Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar. Ni ddylid cynnwys plant sydd â byddardod dros dro yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn. Pob plentyn byddar, ni waeth p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth. Plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eich ardal." Yn arolwg 2016, gofynnodd y cwestiwn i wasanaethau am nifer y plant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae ei gwasanaeth yn gweithredu. Roedd hyn yn newid i'r geiriad er mwyn ceisio gwneud y cwestiwn yn gliriach, ond gofynnodd am yn un grŵp o blant â'r cwestiynau am y plant sy'n 'perthyn' i wasanaethau yn arolygon blaenorol.

sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig (AAA)⁴. Awgryma hyn gynnydd o 1.5% ers Cyfrifiad Ysgol 2015 pan fu ffigur cyfatebol o 2,182⁵.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu data ar nifer y plant mewn ysgolion a gynhelir lle y cofnodir nam ar y clyw yn AAA eilaidd⁶. Yn 2016, bu'r ffigur hwn yn 630. O ganlyniad, cofnododd y Cyfrifiad Ysgolion gyfanswm o 2,845 o ddisgyblion â nam ar y clyw yn 2016. Mae hyn yn cynnwys nifer amhendant o blant mewn meithrinfeydd a gynhelir⁷.

I gloi, cofnodwyd bod gan 49 o ddisgyblion ychwanegol namau amlsynnwyr yn brif angen.

Nifer y plant byddar ar lwythi achos gwasanaethau

Yn gynharach, edrychodd CRIDE ar nifer y plant byddar y gwyddys eu bod yn byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Gofynnodd CRIDE hefyd am blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau⁸.

Newidiwyd geiriad y cwestiwn hwn ynglŷn â'r plant a gefnogir gan y gwasanaeth yn arolwg 2016. Mewn blynyddoedd blaenorol, cynhwyswyd plant â byddardod parhaol yn unig, ond eleni, yn dilyn adborth gan wasanaethau, mae'r cwestiwn am lwythi achos yn cynnwys plant â byddardod dros dro hefyd.

Yn seiliedig ar ymatebion gan bob un o'r 15 gwasanaeth, awgryma ymatebion yr arolwg fod o leiaf 3,722 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwythi achos oedd 51 a'r uchaf oedd 1,065. Y cyfartaledd oedd 248 o blant.

Plant â byddardod dargludol dros dro

Gofynnodd CRIDE i wasanaethau am y nifer o blant ar eu llwythi achos oedd â byddardod dargludol dros dro ac roeddent yn gallu adnabod 1,642. Ond awgryma rhai o'r gwasanaethau bod rhai o'r plant ar eu llwythi achos yn aros am ddiagnosis ac felly roedd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn ag a oedd byddardod yn un dros dro neu beidio.

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd a oeddent wedi sylwi ar unrhyw newid i ddarpariaeth teclynnau clyw i blant â byddardod dargludol dros dro o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd saith gwasanaeth (47%) 'na' ac wyth gwasanaeth (53%) 'ie'. Pan ofynnwyd iddynt ba effaith oedd newidiadau o'r fath wedi cael ar y gwasanaeth, nododd nifer o ymatebwyr fod nifer cynyddol o blant sy'n derbyn teclynnau clyw, yn hytrach na chael llawdriniaeth i osod gromedau, yn cael eu cyfeirio atynt.

4 Data ar gael yn <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/schools-census/?skip=1&lang=cy>. Mae data'r Cyfrifiad Ysgol yn seiliedig ar ddatganiadau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) gan ysgolion ledled Cymru. Felly, ni chynhwysa'r data plant sy'n mynychu ysgol arbennig tu allan i Gymru neu sydd yn derbyn addysg yn y cartref. Cynhwysir plant sydd ar Weithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu sydd â Datganiad.

5 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs/pupilssen-by-majorneed-year>

6 Er hynny, dylid nodi y darperir gwybodaeth am anghenion eilaidd gan ysgolion yn wirfoddol. Dylid nodi hefyd na chesglir gwybodaeth am anghenion eraill tu hwnt i anghenion eilaidd.

7 Nid yw'n bosib adnabod faint o'r rheini sydd yn cyfateb i ddisgyblion meithrin ond, yn seiliedig ar ffigurau a rhoddwyd yn gynharach, nid yw'n afresymol i dybio ei bod yn gymharol isel.

8 Y diffiniad a rhoddir ar gyfer y cwestiwn hwn oedd "Wrth ddweud plant ar lwythi achosion, rydym yn golygu plant sy'n derbyn rhyw fath o gefnogaeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol, athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Roedd hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau ond nad ydynt yn byw o fewn ardal ddaearyddol y gwasanaeth hynny."

RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, yn cynnwys y rheini mewn swydd beripatetig a'r rheini sy'n gweithio mewn darpariaeth adnoddau. Mynega'r ffigurau fel swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar CALI 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner 'wythnos waith' safonol. Am y tro cyntaf hwn, gofynnodd CRIDE yn benodol ac ar wahân am Athrawon Plant Byddar oedd yn gweithio'n hyblyg rhwng y gwasanaeth peripatetig a darpariaeth adnoddau (mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i ymatebwyr gosod cyfran CALI 'cyfartalog' i'r rheini oedd yn gweithio'n hyblyg). Tra bod geiriad a strwythur y cwestiynau yn arolwg CRIDE wedi'u newid, cred CRIDE y dylai'r ffigurau dal fod yn gymaradwy o flynyddoedd blaenorol.

Cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yw o leiaf 65.

Mae yna o leiaf 69 athro (CALI) sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru. Llenwir 95% o'r swyddi gan Athro Plant Byddar cwbl gymwysedig gyda'r 5% sy'n weddill wedi'i llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant neu sy'n bwriadu hyfforddi o fewn 3 blynedd.

Pan gyflawnir yr arolwg, bu un swydd wag (CALI). Os ychwanegir y swydd wag at gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth, ymddengys fod o leiaf 70 swydd Athrawon Plant Byddar, gydag 1% ohonynt yn wag.

Tabl 2: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol

	Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALI)	Canran o'r cyfanswm
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	65.45	95%
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	3.8	5%
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%
Cyfanswm	69.25	100%

Dengys y tabl isod fod gostyngiad o 6% yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig wedi bod rhwng 2014/15 a 2015/16. Mae gostyngiad o 10% wedi bod ers 2010/11.

Tabl 3: Newidiadau yn nifer yr athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn

	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn swydd	71.95	91.75	66.5	67.0	69.86	65.45
Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn swydd	75.95	100.55	71.5	70.2	74.26	69.25
Nifer swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag)	75.95	100.55	74.5	70.8	75.06	70.25

Edrychodd CRIDE hefyd ar faint o wasanaethau oedd wedi gweld newid i nifer yr Athrawon Plant Byddar o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Tabl 4: Nifer y gwasanaethau lle bu newid i nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys y rheini sydd o dan hyfforddiant neu'r rheini sydd heb y cymhwyster ac nad ydynt o dan hyfforddiant)

	Nifer y gwasanaethau	Canran
Cynnydd	2	13%
Dim newid	7	47%
Gostyngiad	6	40%

Gofynnodd CRIDE a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu sicrhau athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf. Cofnododd pedwar gwasanaeth anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol tra cofnododd dau wasanaeth ddim anawsterau. Cofnododd chwe gwasanaeth anawsterau wrth recriwtio staff llanw tra cofnododd dau wasanaeth ddim anawsterau. Os oedd gwasanaethau wedi cofnodi anawsterau, gofynnwyd iddynt nodi'r anawsterau. Yr oedd atebion yn cynnwys problemau yn recriwtio i swyddi llanw/dros dro, prinder Athrawon Plant Byddar cymwysedig yn ymgeisio am y swyddi, a phrinder Athrawon Plant Byddar cymwysedig sy'n gallu darparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Edrycha'r adrannau dilynol yn fwy manwl ar nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir mewn swydd beripatetig neu mewn darpariaeth adnoddau.

Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig

Gofynnodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a weithiai yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol o Ionawr 2016. Hynny yw, faint o Athrawon Plant Byddar 'gwadd' a weithiai ym mhob gwasanaeth. Yn arferol ymwêl Athrawon Plant Byddar gwadd â phlant byddar mewn darpariaeth 'anarbenigol' - h.y. plant byddar cyn-ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nad yw ar gyfer plant byddar yn benodol.

Tabl 5: Nifer yr Athrawon Plant Byddar gwadd mewn cyflogaeth

	Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (CALI)	Canran	Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori addas
Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol	35.45	93%	15
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	2.8	7%	3
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%	0
Cyfanswm	38.25		

Dim ond un gwasanaeth a gofnododd unrhyw swyddi gwag o Ionawr 2016, a ddaeth i 1 swydd (CALI).

Yn nhermau Athrawon Plant Byddar cymwysedig gwadd sydd â'r cymhwyster gorfodol, roedd y ffigurau o fewn pob gwasanaeth yn amrywio o 0.5 i 7 (CALI). Nifer cyfartalog yr Athrawon Plant Byddar gwadd (sydd â'r cymhwyster gorfodol) ym mhob gwasanaeth yw 2.36 (CALI).

Gofynnodd CRIDE am nifer yr Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio mewn gwasanaethau peripatetig â chymwysterau arbenigol ychwanegol, ond ni chofnodwyd yr un.

Cyfloga naw gwasanaeth dau Athro Plant Byddar gwadd neu lai, gyda thri o'r gwasanaethau hyn yn cyflogi un Athro Plant Byddar gwadd neu lai.

Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau

Gofynnwyd i wasanaethau faint o ddarpariaethau adnoddau (mewn ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig) oedd yn eu hardal. Roedd gan deg gwasanaeth ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran meithrin yn eu hardal, ac roedd gan deg gwasanaeth ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran uwchradd, a oedd yn rhoi cyfanswm o 24 darpariaeth adnoddau ar draws un ardal ar ddeg.

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogir mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar ac a'u cyflogir yn ganolog gan yr awdurdod lleol neu yn uniongyrchol gan yr ysgol. Gofynnir i ymatebwyr am beidio â chynnwys unrhyw amser a dreulir yn cyflawni dyletswyddau ysgol eraill (e.e. amser yn gweithio fel cydlynnydd AAA'r ysgol).

Tabl 6: Nifer Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau

	Nifer yr athrawon (CALI) mewn darpariaeth adnoddau	Canran	Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas
Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol	27	96%	9
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	1	4%	1
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%	0
Cyfanswm	28		

Ni chofnodwyd unrhyw swyddi Athrawon Plant Byddar gwag mewn darpariaethau adnoddau o Ionawr 2016.

Gofynnodd CRIDE am Athrawon Plant Byddar yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau sydd â chymhwyster arbenigol ychwanegol mewn cymorth blynyddoedd cynnar. Cofnodwyd 1 (CALI) Athro Plant Byddar yn gweithio mewn darpariaeth adnoddau oedd â chymhwyster arbenigol ychwanegol mewn cymorth blynyddoedd cynnar.

Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig ac mewn darpariaeth adnoddau

Yr oedd tri gwasanaeth ag Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig ac mewn darpariaeth adnoddau, gyda chyfanswm o 3 (CALI) Athro Plant Byddar yn gweithio yn y modd hwn yng Nghymru. Roedd gan bob un ohonynt y cymhwyster gorfodol.

Athrawon Plant Byddar sy'n darparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer yr Athrawon Plant Byddar oedd yn gallu darparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Cofnododd naw gwasanaeth bod yna Athrawon Plant Byddar oedd yn gallu darparu hyn. Cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar oedd yn gallu gwneud hyn oedd 13.7 (CALI), sy'n dod i 20% o'r cyfanswm o Athrawon Plant Byddar. O'r 13.7, yr oedd 9.7 (CALI) yn Athrawon Plant Byddar cwbl gymwysedig, sy'n dod i 15% o'r cyfanswm o Athrawon Plant Byddar cymwysedig.

Tabl 7: Nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gallu darparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

	Nifer yr athrawon (CALI) mewn darpariaeth adnoddau	Canran	Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas
Athrawon Plant Byddar sydd â'r cymhwyster gorfodol	9.7	71%	8
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	4	29%	4
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%	0
Cyfanswm	13.7		

Staff arbenigol arall

Awgryma canlyniadau'r arolwg fod 85.3 (CALI) staff cymorth arbenigol, heblaw am Athrawon Plant Byddar, sy'n cefnogi plant byddar yng Nghymru, a 88% ohonynt yn Gynorthwyr Addysgu. O'r staff cymorth arbenigol i gyd, yr oedd 19% yn gweithio yn y gwasanaeth peripatetig, 80% yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau ac 1% yn gweithio'n hyblyg ar draws y gwasanaeth peripatetig a darpariaethau adnoddau.

Tabl 8: Staff arbenigol arall yn gyffredinol

	Nifer	Canran	Nifer y gwasanaethau â staff mewn categori addas
Cynorthwyr addysgu / Cynorthwyr cymorth dysgu ayb	75.3	88%	11
Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Dehonglwyr / Cyfathrebwyr ayb	7.8	9%	3
Hyfforddwyr byddar / Modelau Rôl byddar/ Hyfforddwyr Iaith Arwyddion ayb	0	0%	0
Awdiolegwyr addysgol	0	0%	0
Technegwyr, ayb	2	2%	1
Therapyddion Lleferydd ac iaith	0.2	0%	1
Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt	0	0%	0
Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar	0	0%	0
Cyfanswm	85.3		

Nododd rhai gwasanaethau fod yna staff arbenigol arall, ond ni allent gyfrif y cyfwerth ag amser llawn. Nododd rhai gwasanaethau hefyd fod ganddynt fynediad at wasanaethau arbenigol fel therapi lleferydd ac iaith ond y darperir y rhain gan wasanaethau eraill 'yn ôl y gofyn'.

RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir

Lleoliad y gwasanaeth

Gofynnwyd i wasanaethau ble y lleolwyd y gwasanaeth peripatetig h.y. a oedd o fewn yr awdurdod lleol, mewn ysgol sydd â darpariaeth adnoddau, ysgol arbennig neu wedi'i is-gontractio i gorff neu fudiad arall. Nododd 14 gwasanaeth eu bod wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod lleol.

Fframweithiau/meini prawf cymhwyster

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'u dyraniad cymorth rhwng 2014/15 a 2015/16. Adroddodd 13 gwasanaeth doedd dim newidiadau wedi bod, ac adroddodd dau fod wedi bod. Yr oedd y newidiadau hyn yn cynnwys lleihau amllder ymweliadau i blant â byddardod dros dro oherwydd nifer cynyddol ohonynt yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth.

Mae pob un o'r 15 gwasanaeth yng Nghymru nawr yn defnyddio fframwaith cymhwysedd (meini prawf cymhwysedd gynt) y Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr (NatSIP) i'w helpu i benderfynu ba lefel o gymorth y dylai plant byddar ei derbyn. Mynegodd sawl gwasanaeth eu bod yn defnyddio meini prawf NATSiP ochr yn ochr ag arbenigedd a meini prawf lleol.

Mae fframwaith cymhwysedd NatSIP yn rhoi dwy enghraifft o sgorio fframweithiau dyraniad (h.y. ffordd o benderfynu faint o gymorth derbyniodd plentyn yn seiliedig ar sut y 'sgorir' ei anghenion), ar dudalennau 8 a 9 o'r adnodd. Lle bo gwasanaethau wedi mynegi'r naill ffordd neu'r llall, nododd dau wasanaeth eu bod wedi defnyddio enghraifft un a deg eu bod wedi defnyddio enghraifft dau.

Safonau ansawdd

Gofynnwyd i wasanaethau i nodi pa safonau ansawdd yr oeddent wedi'u defnyddio er mwyn adolygu datblygiad y gwasanaeth. Roedd yn bosib i wasanaethau ticio mwy nag un opsiwn.

Tabl 9: Defnydd o'r safonau ansawdd i ystyried y gwasanaeth a ddarparwyd neu i edrych ar ddatblygu gwasanaeth

	Nifer y gwasanaethau
Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thwm eu Clyw (nawr Action on Hearing Loss): Quality standards: Specialist teaching and support services for deaf children and young people (2009)	12
Llywodraeth Cymru: Arferion Da ar gyfer Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (2003)	9
Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (nawr Yr Adran Addysg) (Lloegr): Quality Standards for Special Educational Needs (SEN) Support and Outreach Services (2008)	6
Safonau Ansawdd Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod	8
NatSIP Quality Improvement Support Pack (2014)	9
Deafblind People: Guidance for Local Authorities, Yr Adran Iechyd (2014)	2
Safonau eraill	3

Y safonau eraill a nodwyd oedd:

- Llywodraeth Cymru: Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyr (2005)
- Dadansoddiad data adroddiadau blynyddol bwrdd rhanbarthol.

Trefniadau cyllido

Adroddodd y rhan fwyaf o wasanaethau (87%) bod y gwasanaeth cymorth arbenigol peripatetig ar gyfer plant byddar o 5 i 16 oed wedi'i gyllido'n ganolog gan yr awdurdod lleol.

Tabl 10: Trefniadau cyllido i wasanaethau cymorth arbenigol peripatetig ar gyfer plant byddar o 5 i 16 oed

	Nifer	Canran
Wedi'i reoli'n ganolog gan yr Awdurdodau Lleol (gan gynnwys arian a reolir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer prynu gwasanaethau cymorth clyw gan Awdurdodau Lleol eraill, neu asiantaethau allanol e.e. SENSE)	13	87%
Wedi'i ddirprwyo i ysgol arbennig neu ysgol priif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau sydd wedyn yn darparu allgymorth i ysgolion eraill	0	0%
Wedi'i ddirprwyo yn gyfan gwbl i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r Awdurdod Lleol	0	0%
Wedi'i ddirprwyo'n rhannol i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o'r Awdurdod Lleol (e.e. "gwasanaethau a fasnachir" ar gyfer plant heb ddatganiad AAA)	2	13%
Arall	0	0%
Cyfanswm	15	

Gofynnwyd i wasanaethau o oeddent wedi cael arolwg neu ailgynlluniad gwasanaeth rhwng 2013/14 a 2016/17, neu a oedd cynlluniau i'w wneud. Nododd tri gwasanaeth (20%) nid dyma oedd yr achos, a 12 gwasanaeth (80%) dyma oedd yr achos.

RHAN 4: Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Yn arolwg 2016, roedd adran yn yr arolwg am ddiwygiadau ADY.

Gofynnodd CRIDE i wasanaethau am ba drefniadau oedd ar waith rhwng y gwasanaeth addysg ac iechyd er mwyn darparu cymorth therapi lleferydd ac iaith i blant byddar. Yr oedd sylwadau'r gwasanaethau yn cynnwys:

- cytundebau lefel gwasanaeth ar waith, yn cynnwys rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg yn benodol
- cyfeiriadau at wasanaethau therapi lleferydd ac iaith a chyfeiriadau at therapydd lleferydd ac iaith yn arbenigo mewn nam ar y clyw ar gyfer rhai plant ar y llwyth achos
- mynediad rheolaidd at gymorth therapi lleferydd ac iaith ar gyfer rhai plant ar y llwyth achos
- cyswllt rheolaidd rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg, yn cynnwys trefnau cyfeirio safonol, rhannu gwybodaeth, rhannu targedau a datblygu llwybrau gofal integredig.

Yr oedd rhai sylwadau'r gwasanaethau ynglŷn â'r ffaith bod darpariaeth lleferydd ac iaith ddim ar gael i rai plant ar lwythi achos, yn cynnwys plant oedran cyn-ysgol a phlant oedran-uwchradd.

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn darparu unrhyw gymorth i bobl ifanc byddar rhwng 19 a 25 oed. Dywedodd un gwasanaeth ei fod (7%), dywedodd 13 na (93%) a ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn. Gofynnodd CRIDE wedyn lle bo gwasanaethau ddim yn darparu hyn, a oedd cynlluniau i adolygu'r polisi hwn ar sail deddfwriaeth arfaethedig ar ADY. Dywedodd rhai o'r gwasanaethau bod hyn dan adolygiad neu ar fin cael ei adolygu yn ôl y gofyn. Dywedodd eraill nad ydynt yn cefnogi'r grŵp oedran hwn ar hyn o bryd a, pe byddent yn ei gefnogi, caiff effaith arwyddocaol ar faint y gwasanaeth, hyfforddi, staffio a chyllido. Dywedodd rhai o'r gwasanaethau eu bod nhw yn delio â phontio, fel arfer trwy ddarparu gwybodaeth i staff addysg bellach/gwasanaethau myfyrwyr.

Gofynnodd CRIDE i'r gwasanaethau a oedd unrhyw Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) anstatudol wedi cael eu dosbarthu i unrhyw blant byddar yn yr ardal. Dywedodd un ar ddeg na, dywedodd tri eu bod nhw wedi, ac yr oedd un gwasanaeth yn ansicr.

RHAN 5: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiw sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: [Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar](#) (BATOD), [Prifysgol Dinas Llundain](#), [Sefydliad Y Glust](#), [Sefydliad Ewing](#), [Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar](#) (NDCS), [Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr](#) (NatSIP), [Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar](#), [Ysgol Mary Hare](#), y gwasanaeth arbenigol i blant byddar yng Nghaint, Norfolk ac Ucheldiroedd yr Alban, [Prifysgol Leeds](#) a [Choleg Prifysgol Llundain](#).

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Yn 2016, ar ôl pum mlynedd o gynnal yr arolwg, gwnaeth CRIDE nifer o newidiadau arwyddocaol i gwestiynau'r arolwg yn dilyn adolygiad sylweddol.

Mae arolwg CRIDE yn defnyddio arolygon byrrach a llawn bob yn ail flwyddyn. Yn 2016, cyhoeddwyd arolwg byr.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2016 gan staff y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn Ebrill 25 2016. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltodd aelodau CRIDE â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn. Yn dilyn hyn, yn gam olaf, anfonwyd Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ym mis Mehefin 2016 i'r gweddill nad oeddynt wedi ymateb.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

Tabl 12: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaeth

	Nifer yr ymatebion	Cyfanswm cronus
Dyddiad cau cyntaf – 25 Ebrill 2016	13	13
Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt	0	13
Dychwelwyd ar ôl ceisiad Rhyddid Gwybodaeth	2	15

Ymgwymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffai CRIDE ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr a ddefnyddir i hysbysu cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisiau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â professionals@ndcs.org.uk.

Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl hwn rhai data unigol o wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu'r ffigurau am nifer y plant (hyd at 19 mlwydd ac 11 mis) ac Athrawon Plant Byddar o Ionawr 31 2016.

Noder fod '-' yn golygu na dderbyniwyd ymateb i'r cwestiwn perthnasol tra bod 'n/a' yn awgrymu bod ymateb yn amherthnasol (gan amlaf yn y tabl isod mae hyn oherwydd nid oes darpariaethau adnoddau gan y gwasanaeth). Noder hefyd lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw categori yn llai na 5, ymddengys '<5'.

Dylai cyfeiriadau at Athrawon Plant Byddar cynnwys y rheini sydd â'r cymhwyster gorfodol neu sydd o dan hyfforddiant. Ni chynhwysir staff eraill sy'n gweithio fel Athro Plant Byddar ond heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant yn y tabl.

Tabl 39: Data yn ôl awdurdod lleol

	Nifer y plant â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu	Nifer y plant â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth	Nifer y plant byddar â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth	Nifer yr Athrawon Plant Byddar cyfwerth ag amser llawn sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol	Nifer yr Athrawon Plant Byddar cyfwerth ag amser llawn mewn darpariaeth adnoddau	Nifer yr Athrawon Plant Byddar cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio'n hyblyg
Abertawe	148	364	216	2	2	0
Bro Morgannwg	95	85	10	1	2	0
Caerdydd	293	680	387	5.5	5	1
Castell-nedd Port Talbot	110	194	84	2	3	0
Ceredigion	72	72	9	0.8	-	1
Conwy	72	66	6	1.5	n/a	n/a
Gwent Fwyaf (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen)	349	1,065	686	7	6	0
Gwynedd ac Ynys Môn	172	213	37	2.7	n/a	n/a
Merthyr Tudful	52	51	<5	0.5	-	1
Pen-y-bont	185	115	70	2	1	0
Powys	116	137	21	2.6	n/a	n/a
Rhondda Cynon Taf	228	118	-	3.6	1	0
Sir Benfro	82	107	22	2	n/a	n/a
Sir Gaerfyrddin	126	180	54	2	3	-
Siroedd y	274	275	39	3	5	0

Fflint, Dinbych a Wreccsam						
-------------------------------	--	--	--	--	--	--